

CYFANSODDIADAU

AROBRYN,

GAN HYWEL MORGANWG.

SEF.

PRYDD ESTAWDL

AR FARWOLAETH Y

PARCH. O. EVANS, CEFNGOEDYCYMER ;

A MARWNAD

AR OL

MRS. M. EVANS,

"SIX BELLS," PENYRHEOLGERIG.

ANWYL DDARLLENYDD,—

Wele yr wyf wedi anturio dwyn drwy y wasg y *Ddwy Farwnad*, y rhai mae cymaint o ddysgwyl am danynt gan lawer, gan obeithio cant dderbiniad croesawgar genych. Dymunwn yn fawr i'r *uchel* a'r manylgraff i basio heibio i'r gwallau a'r diffygion sydd ynddynt, gan nad wyf yn fawr nac yn fedrus ; er eu bod wedi cael cymradwyaeth uchel gan y beirniaid,—y cyntaf gan TYDFYLYN, a'r olaf gan CALEDFRYN.

Yr eiddoch, yr Awdwr,

HYWEL MORGANWG.

MERTHYR TYDFIL :

ARGRAFFWYD GAN JOSEPH WILLIAMS, GLEBELAND.

1866.

PRYDDESTAWDL

AR FARWOLAETH

Y PARCH. O. EVANS,

GWEINIDOG YR UNDODIAID YN NGHEFN-
COEDYCYMER.

O, GEFNCOEDYCYMER! Beth lwydodd dy wyneb?
Beth ddygodd dy harddwch a'th swynol sirioldeb?
A wyt anrheithiedig? Paham wyt yn wyllo?
Paham y mae dagrau o'th lygaid yn ffrydio?
A ballodd mwynderau hyfrydol dy fywyd
Ddylifo i'th fynwes, er lloni dy ysbryd?
A ydyw olwynion dy fasnach a'th gynydd,
O herwydd rhyw anffawd, yn aros yn llonydd?
A ballodd prid wythi dy fryniau amgylchog
Ddiwallu dy feibion â'u cynwys cyforiog?

Na, na, mae olwynion dy fasnach mewn cyffro,
A phawb yn darogan dy lwydd heb betruso;
A'th fryniau o'th amgylch sy'n arllwys adnoddau
I gynal dy feibion uwchlaw eu ceisiadau;
Dy lwyddiant sydd amlwg—dy gyfoeth ar gynydd,
A'th heirdd anifeiliaid dryfrithant dy ddolydd;
A'th erddi leleidwiw, a'th lawnion berllanau,
Sy'n dwyn yn eu tymhor gyflawnder o ffrwythau:
Ond peth sy'n bwysicach a waeda dy galon,
A dŷna dy ddagrau, a ddifa'th gysuron,
A leddfa'th acenion, a lwyda dy wyneb,
A ddryllia'th deimladau, a wywa'th sirioldeb,—
Bod EVANS, y dewraf a'r mwyaf o'th feibion—
Y llachar oleuad—gogoniant dy goron—
Y dwysgall addysgwr—gorenwog ei riniau—
Yn awr wedi 'i ddodi yn meddrod ei dadau!

Ow, Angeu! Ow, Angeu! dy golyn gwenwynig
A dynwyd,—ond eto mae'th allu'n orhyllig,
Yn achos mawr ochain, wylofain, a thristwch!
Yn mysg yr hil ddynol yn creu annyddanwch!

Tebygol, pe na thramwyasit ein daiar,
 Na chawsem fyth weled ein gilydd mewn galar;
 Ond weithian mae rhywrai dan boenau erch beunydd,
 I'w gweled mewn galar yn achos eu gilydd.

Yn mysg yr ardaloedd sydd heddyw mewn prudd-der,
 Llawn drosto gan dristwch yw CEFNCOED CYMER;
 Tra sydyn y torwyd ein Hathraw mwyn tirion—
 Ein Hevans anwylaf a fwriwyd at feirwon!
 Yr hwn a ddarluniai Athroniaeth y Duwdod
 Yn fanol a threiddlym, gan ddiffyn yr "Undod."
 Mewn gorlif hyawdledd a dawn areithyddol
 Fe dynai graff sylw y dorf yn wastadol.
 Yr oedd yn gefnogwr a noddwr pob rhinwedd,
 A gelyn galluog pob twyll ac anwiredd;
 Arferai foesgarwech at bawb yn bersonol,
 Mewn geiriau gwirionedd a sobrwydd difrifol.

O Sion alarus! fe glwyfwyd dy galon
 Pan gollaist dy Fugail a'th wyliai mor ffyddlon.
 Dy blant a ymwibiant yn grwydriaid anfoddus,
 Fel praidd heb un bugail mewn anial blinderus.
 Pan ydoedd ef ganddynt, mor ddedwydd y byddent!
 Dangosai yn fedrus pa ffordd a ddilynent;
 O'r crasdir tywodlyd tywysai hwy'n ddiogel
 I'r dolydd meillionog, ger llaw'r dyfroedd tawel.

Ond Ow'r cyfnewidiad! rhyw aeth sy'n ymdaenu!
 Tarawyd y Bugail, a'r praidd sy'n galaru!
 Collasant eu Blaenor a'u Hathraw ysbrydol,
 Yr hwn a feddianai'r fath ffrydlif meddyliol;
 Ond weithian mae'r tafod llym ffraeth wedi tewi,
 A'r llygaid eu seirian ni cheir i'n sirioli,
 A'r gwyneb ar ganoedd mor hawddgar fu'n gwenu,
 A guddiwyd o'r golwg dan leni'r oer wely.
 Y babell a welwyd yn gadarn adeilad,
 Mewn agwedd wir hoenus ac hardd o wneuthuriad,
 Ar unwaith dymchwelwyd i gaerau y gweryd.
 A'r oll ydoedd farwol sy'n awr yn ddifywyd.

Os ydyw Sion yn ei *du*,
 Mewn hiraeth ar ol Bugail eu,
 Ei briod yn amddifad sydd,
 Mewn hiraeth mwy o ddydd i ddydd.
 Mae ardrem galar dwys i ni
 Yn amlwg yn ei llygaid hi:
 Ei gloewon ddagrau'n ffrydio sydd
 Yn llif i'r llawr y nos a'r dydd:
 Annyddan iddi yw pob cerdd—
 Mae 'i meddwl hi'n y fonwent werdd.

Ar edyn rhyw ddychymyg gwan
 E dremiaf finau tua'r fan,
 A phwy yw'r gwrthddrych welaf draw
 Ar ael ei fedd, heb unrhyw fraw,
 Ond ei gymhares fwyn ddinam,
 Yn gwylio'i lwch rhag derbyn cam
 Gan draed y rhai dibrosiad o
 Roi un mor anwyl yn y gro.

Ar ol i'r nos ddystewi cân
 A cherddi per yr ednod mân,
 Heb ddim ond si yr awel fwyn
 Fel galar gerdd yn mrig y llwyn,
 A chwsg yn cau amrantau dyn
 Mewn tawel hynt,—fe welir un
 O deimlad dwys, yn welw'i gwedd,
 Yn nesu'n ddystaw at ei fedd,
 A'i gwallt boglynog ar ei phen,
 A thros ei gwyneb taena llen
 O brudd-der megys cwmwl dû,
 Lle gwelwyd gynt y gwenau cu!
 Yn mlaen mae'n dod o gam i gam,
 Heb neb yn beiddio gofyn pam:
 Mae'i dwylaw'n mhleth, yn nod o siom,
 A'i bod yn teimlo gwasgfa drom,
 A'r dagrau'n rhedeg megys lli'
 Ar hyd ei gruddian llwydion hi.
 Fel hyn, yn ngoleu gwan y lloer,
 Y saif uwchben yr anedd oer,

Gan sibrawd,—“O'r dû oerllyd fedd,
 Pa fodd agoraist ti dy ddor,
 A'i gau ar ffyddlon Gened Hedd,
 Weinydda'n hir dros Arglwydd Ior?
 A'r cyfaill goreu welais i
 Erioed tra yma ar y llawr,
 Yr hwn a'i serch a'i gariad cu
 A lonai'r teulu'n fach a mawr.
 Yn awr, gan chwerwder teimlad dwys,
 Wyf bron ymollwng tua'r bedd;
 Fe wyr fy nghalon beth yw pwys
 Trallodion cyflwr prudd dihedd.
 Nis geill fy amgyffredion i
 Iawn ddeall troion Arfaeth Ior—
 Ei ffyrdd a safant byth mewn bri
 Dros holl derfynau tir a môr:
 Amgyffred hyn annichon yw—
 Pam torir y ffigysbren îr,